# Heddwch

**cylchgrawn CND Cymru**

**Haf 1996**
**25c**





## TU FEWN:

- **Llys y Byd yn datgan bod defnyddio neu fygwth defnyddio arfau niwclear yn anghyfreithlon!**
- **Trenau niwclear ar draws Cymru**
- **Ofnau am ddiogelwch wedi'r arwerthiant 'cist-car' niwclear**

*. . . a mwy*

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

## Gwyliau yn Iwerddon

Ymwelwch â'n cartref heddgarol yn ei leoliad godidog ym Mynyddoedd Comeragh. Lle gwych i gerdded, marchogaeth beic, golff, pysgota, dringo creigiau, ymlacio. Bwyd gwych (yn cynnwys dietau arbennig), gwinoedd, ac ambell noson o gerddoriaeth draddodiadol fyw. Gwely a brecwast, pryd hwyrol, ystafelloedd â chyfleusterau, mynediad cadair olwyn, tân agored. O fewn cyrraedd cyfleus i fferi Rosslare. Pauline Humphreys, Coumshingaun Lodge, Kilclooney, Kilmacthomas, Co. Waterford, Iwerddon.
Tel 00-353-51-646238.

## CYSWLLT CND CYMRU

Y SIOP HEDDWCH,
56 MACKINTOSH PLACE, ROATH,

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 OLR (01550) 750260

CADEIRYDD
**David Morris MEP (01792) 643542**

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (01970) 611994
**Rod Stallard** (01550) 750260

DE CYMRU
**Ray Davies** (01222) 889514

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (01978) 310491

AELODAETH
**Aelodaeth CND Cymru d/o Y Siop Heddwch**

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (01766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (01792) 830330

TRYSORYDD
**Jean Bryant**
16 Ty'n y Cymer Close,
Y Porth, Rhondda CF39 9DF

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda.**

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ______________________________

Cyfeiriad ______________________________


______________________________

______________________________ Côd Post __________

Ffôn ______________________ Amgaeaf siec/GP am ____

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Y Siop Heddwch. 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.

## Mae ar Blant Tsiernobyl ANGEN EICH CYMORTH!



**Mae 90% o blant Gweriniaeth Bielarws wedi eu llygru gan alldafliad ymbelydrol y ffrwydrad yn Atomfa Tsiernobyl ym 1986. Maent yn dioddef anffurfianau genedigaethol, clefydau'r galon, y system fasgwlar a'r chwarren theiroid, lewcemia a chanserau. Fe fydd y tir amaethyddol a lygrwyd yn aros yn ymbelydrol am filoedd o flynyddoedd. Mae'r plant yn marw, a gresynus yw tynged y cenedlaethau nas ganwyd eto. Mae cenedl gyfan yn galaru. Dyma drychineb mud.**

**Yn yr hydref byddwn yn mynd ag ambiwlans a chymorth meddygol draw i gartref plant amddifad/ysbyty ym Mielarws, yn rhodd oddi wrth bobl Cymru.**

**Fe ellwch chithau helpu :**
- **Bydd hyd yn oed rhodd fechan yn gymorth i brynu moddion i'r plant.**
- **Dywedwch wrth bobl am effeithiau damwain Tsiernobyl. Rhaid inni sicrhau na all damwain niwclear ddigwydd byth eto yn unman.**

***Am ragor o wybodaeth am y Prosiect, neu am effeithiau'r ddamwain yn Tsiernoobyl, neu os ydych chi am anfon rhoddion (taladwy i Brosiect Plant Tsiernobyl), cysylltwch â : Prosiect Plant Tsiernobyl,"Nantgaredig", Cynghordy, Llanymmdyfri, Dyfed SA20OLR .Ffôn/ffacs:(015505)750 260***




# Y Siop Heddwch

**56 Mackintosh Place,
Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.
Tel: 01222 489260**

**Nwyddau o Traidcraft, Amnesty Rhyngwladol, Gwrth-Apartheid, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear, CND, Earthcare, Unicef. Mae gennym stoc helaeth o lyfrau a chylchgronau ynghyd â gemwaith o waith llaw a chrefftau ac, wrth gwrs, crysau-T a sticeri.**

## Newyddion Gweithredu Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ym mis Hydref 1996
- Danfoner cyfraniadau at Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR (01550) 750260
- Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (01222 488748) am fanylion
- Y dyddiad cau ar gyfer copi yw 7fed Mawrth 1994.
- Croesewir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol.

## Llys y Byd yn datgan bod defnyddio neu fygwth defnyddio arfau niwclear yn anghyfreithlon!

Mae'n bosib iawn yn cofir 8 Gorffennaf 1996 fel y diwrnod y daeth byd heb arfau niwclear yn fwy na breuddwyd. Y diwrnod hwnnw, datganodd y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol y byddai defnyddio arfau niwclear neu fygwth eu defnyddio yn "groes i reolau cyfraith genedlaethol sydd yn berthnasol mewn gwrthdaro arfog" mewn bron unrhyw amgylchiadau y gellid eu dychmgu.

Yr unig eithriad i'r datganiad syfrdanol hwn o anghyfreithlondeb oedd na allai'r Llys ddatgan yn derfynol a fyddai bygwth neu ddefnyddio arfau niwclear yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon mewn amgylchiadau eithafol o hunan-amddiffyn, pan fyddai goroesiad y wladwriaeth ei hun yn y fantol.

Pwysleisiodd y Llys yn unfrydol bod, yn unol ag Erthygl VI o'r Cytundeb Atal Lledaenu Niwclear, "rhwymedigaeth yn bod i fynd ati gyda phob ewyllys da, a dwyn i'w terfyn drafodaethau yn arwain at ddiarfogi niwclear yn ei holl agweddau o dan reolaeth ryngwladol lem ac effeithiol."

Dywed Comander Rob Green, Llynges Frenhinol (ymdd.) o Brosiect Llys y Byd: "Gyda'r penderfyniad hwn, ni allwn fyth fod wedi defnyddio arf niwclear yn gyfreithlon. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar y lluoedd arfog i adolygu eu holl agwedd tuag at arfau niwclear."

Am ergyd i'w gwladwriaethau niwclear a anogodd y Llys i beidio ag ystyried yr achos hwn!

Yn awr, rhaid i ni ledaenu'r newyddion.

Mae copïau o'r penderfyniad (rhyw 40 tudalen) ar gael gan CND Cymru. Mae ymhlygiadau hyn yn aruthrol. Mae Dau Gynnig Boreol i'w gosod ger bron Ty'r Cyffredin, a gofynnir dau Gwestiwn Seneddol yn uniongyrchol yn y Ty.

- *Am wybodaeth bellach ynglyn â'r camau nesaf, gwyliwch y gofod yma, cysylltwch â Jill Stallard, CND Cymru neu Brosiect Llys y Byd, 67 Summerheath Road, Hailsham, Sussex, BN27 3DR (01323) 844 269.*

## Ofnau am Ddiogelwch wedi'r Arwerthiant 'Cist-Car' Niwclear

Mae'r pwysau masnachol sy wedi bod ar bob gorsaf niwclear er 1990 yn cynyddu wrth i breifateiddio fynd rhagddo. O blith y saith gorsaf Adweithydd Nwy Datblygedig (AND) a gynhwysir yn yr arwerthiant, nodwyd gan Uned Ymchwili Polisi Gwyddonol Prifysgol Sussex fod pedair ohonynt yn cynhyrchu pwer am gost uwch na chyfraddau'r farchnad: Dungeness B, Hartlepool, Hinkley Point B a Hunterston B.

Er gwaethaf y canlyniadau erchyll a fygythir i'r neb a fynn ddatgelu gwybodaeth a allai effeithio ar werth marchnad Ynni Prydeinig, mae gweithwyr yn Hinkley Point wedi rhybuddio bod:

- rheolau gweithredu a therfynau perfformio'r orsaf yn cael eu profi i'r eithaf yn hytrach na chau'r orsaf i lawr
- mae'r Arolygwyr Sefydliadau Niwclear yn cael eu llesteirio rhag gweithredu ar faterion a allai effeithio ar breifateiddio
- mae pwysau meddylion a chorfforol anioddefol ar y staff oherwydd y cynnydd yn y llwyth gwaith
- Mae Ynni Prydeinig yn bwriadu cynyddu cynnyrch Hinkley Point B o 6% ar ôl preifateiddio.

O dan gyfraith cwmnïau gwledydd Prydain, unig gyfrifoldeb Ynni Prydeinig yw cynhyrchu cymaint o elw ag sy'n bosibl i'w gyfranddalwyr. Mae'r amlwg eisoes bod nodau ariannol a gorsafol afrealistaidd ac amhosib eu cyflawni yn cael eu gosod sy'n peryglu diogelwch.

Cadarnhawyd mai un o 'brif amcanion' Trydan Magnox yn y sector gyhoeddus a'r 'Ynni Prydeinig' preifateiddiedig ill dau yw ymestyn bywydau'r gorsafoedd niwclear er mwyn iddynt gynhyrchu arian cyhyd ag sy'n posibl, gan ohirio'r dydd pan fydd eu cau yn trawsnewid pob gorsaf yn draul anferth.

Mae'r llywodraeth yn mynnu bod 'rhaid i rwymedigaethau ddilyn asedion' i mewn i'r sector breifat. Fodd bynnag, yn ei brys cibddall i breifateiddio'r gorsafodd AND a Sizewell B, mae wedi

- Mwy na haneru dyledion Ynni Prydeinig, o £1.5 biliwn a geisiwyd yn wreiddiol i £700 miliwn



- tanysgrifennu cost damweiniau uwchlaw'r £140 miliwn cyntaf
- darparu cyfalaf dechreuol o £230 miliwn i Ynni Prydeinig, ar gyfer 'cronfa ddadgomisiynu ar wahân'
- caniatáu i Ynni Prydeinig haneru ei rwymedigaethau dadgomisiynu (ar bapur) i £3.73 biliwn drwy ddefnyddio graddfa ddisgownt o 3% yn lle 2%
- torri ei bolisi ei hun ar ddatblygu cynaladwy drwy ganiatáu i Ynni Prydeinig dalu cyfraniad pitw o £16 miliwn y flwyddyn i'r gronfa ar wahân.

Cyfraniad blynyddol priodol i'r gronfa ddadgomisiynu fyddai rhyw £200 miliwn. Mae cyfarwyddwyr Ynni Prydeinig wedi rhagweld taliad difidend o ryw £96 miliwn am y flwyddyn ariannol gyfredol., 'yn sylweddol fwy nag enillion' felly dargyfeirir arian oddi wrth rwymedigaethau'r dyfodol tuag at elw a thaliadau difidend cyfredol.

Mae'r trethdalwr wedi talu rhyw £10 biliwn (prisiau heddiw) am y gorsafoedd a werthwyd. Costiodd Sizewell B yn unig rhwng £2.5 a £3 biliwn. Mae'r prosbectws ar gyfer Ynni Prydeinig yn amcangyfrif mai £1.54 biliwn yw gwerth ei asedion net. Mae'r trethdalwr yn cael bargen sal ofnadwy, yn awr ac yn y dyfodol rhagweladwy.

Mae preifateiddio'r diwydiant niwclear yn weithred affwysol o sinigaidd, wedi ei hysgogi gan angen y llywodraeth am godi arian i lwgrwobrwyo'r etholwyr cyn yr etholiad nesaf. Bydd y trethdalwr yn dal i fod yn fudd-ddeilydd yn y diwydiant niwclear, yn gyfrifol am rwymedigaethau anferth y gorsafoedd Magnox, ond heb ddim cyllid neilltuedig i dalu amdanynt, a'r llif arian wedi ei breifateiddio i raddau helaeth.

Roedd hi bob amser yn bosibilrwydd y byddai diwydiant niwclear ar ei wely angau yn fwy o berygl nag un oedd yn dal i ehangu. Mae preifateiddio yn ychwanegu tro milain yng nghynffon y stori wrth i adweithyddion hynafol gael eu chwipio ymlaen gan reolwyr am resymau masnachol gan ddefnyddio gweithlu y torrwyd eu hysbryd. Gall y chwarae hwn droi'n chwerw iawn.

*Hugh Richards*

# Arfau Niwclear – Wedi eu Hanelu at Bobl ym Mhob Man

Yn gyntaf, rhaid datgan yn glir bod arfogaethau niwclear anferth yn dal i fod yn y byd, ac eiddo UDA yw'r mwyaf ohonynt. Er gwaethaf arwyddo'r Cytundeb Atal Lledaenu Niwclear y llynedd a rwymai'r gwladwriaethau niwclear i symud tuag at ddiarfogi niwclear, mae'r UD, y DU a Ffrainc wedi ceisio ffyrdd o osgoi'r Cytundeb. Yn hytrach na diarfogfi, mae'r gwladwriaethau niwclear yn cydgyfnerthu eu harfogaethau.

## Camau sinigaidd

Cymerwch y Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr: ni chytunodd yr UD arwyddo hwnnw hyd onid oedd y sicr y gallai wneud profion efelychiad cyfrifiadur yn y labordy. Mewn cam pellach, mae'r UD, Y DU a Ffrainc bellach wedi cytuno i rannu'r wybodaeth honno. Mae'r camau sinigaidd hyn yn peryglu diogelwch y byd oherwydd nid yw cenhedloedd eraill yn mynd i ddioddef y fath agweddau "Gwna'r hyn dwi'n ei ddweud nid yr hyn dwi'n ei wneud" am byth.

## Gallai NATO fod y cyntaf i ddefnyddio arf niwclear

Mae NATO yn dal i fod â pholisi o ddefnyddio arfau niwclear gyntaf, a chred bod arfau niwclear yn 'hanfodol' er 'atal rhyfel'. Bydd NATO nawr yn 'integreiddio gallu is-strategol llongau tanfor Trident Prydain' (Arolwg NATO Ionawr 1996). I bob diben, mae hwn yn rym niwclear Ewropeaidd.

## Pa bris a roddir ar ddiogelwch ein plant?

Felly, beth yw'r 'Trident' yma yr hawlia'r rheini sydd mewn grym y daw â 'diogelwch' i ni? Llong danfor sy'n cludo arfau niwclear ydyw, a gall un o'r llongau hyn gario 4,000 gwaith grym marwol bom Hiroshima. Yr UD gynlluniodd yr holl system; rydym yn prynu'r taflegrau gan yr UD; hyfforddir pob criw yn yr UD. Naw wfft i annibyniaeth. Gwneir yr ergydion niwclear ym Mhrydain, yn Aldermaston a'u cludo ar hyd lonydd cul i fyny i Faslane yn yr Alban. Mae'r gost yn aruthrol: £11,000,000,000 gyda £25,000,000,000 i ddod o bosib. Mae arian cyhoeddus yn cael ei wario ar Trident fel slecs - collwyd £800 miliwn ar wersyll Faslane yn unig. Ac eto, yn Ysgol Gynradd Rhu ger llaw, maent am atal rhoi gwersi nofio i'r plant, ymhlith toriadau eraill. Pa bris a roddir ar ddiogelwch ein plant?

## Pa bris a roddir ar fwyd, dwr glân, addysg, a iechyd?

Mae hyn yn digwydd yn ei henw ni. Os gofynnwn i'n hunain beth a fynnem i bobl ym mhob man, ac yn enwwdig plant, ei gael, a ddywedem "cyflenwad o fwyd, dwr glân, addysg a gofal iechyd" neu a ddywedem "ergydion niwclear a allai ddinistrio'r byd"?

Os dewiswn y cyntaf, yna rhaid i ni bob un ohonom fynd ati i ddinoethi'r celwyddau, rhannu'r wybodaeth ac ymuno ag eraill i ymgyrchu dros fyd di-niwclear. Mae "Diddymu 2000", rhwydwaith byd-eang i ddileu arfau niwclear, wedi gosod agenda resymol a chyraeddadwy - gadewch i ni i gyd weithio tuag at honno. Mewn undeb mae nerth: mae angen CND fel na bu erioed o'r blaen. Ymunwch a gwahaoddwch eich cymdogion i ymuno.

*Rae Street*

# Grwp atal hawks Gwynedd

Yn rhifyn diwethaf Heddwch cynhwyswyd erthygl yn cyfeirio, ymysg pethau eraill, at Wersyll Heddwch a gynhaliwyd ger RAF y Fali, Ynys Môn dros benwythnos Mehefin 8-10fed. Prif fwriad y gwersyll oedd dwyn sylw'r cyhoedd at ddefnydd awyrennau Hawk i ormesu a hil-ladd trigolion ynys fechan Dwyrain Timor gan lywodraeth Indonesia. Hyfforddir peilotiaid o Indonesia yma yn y Fali.

Dros y tridiau daeth rhwng tri a phedwar cant heibio gyda oddeutu 150 yn mynychu'r rali a gynhaliwyd ar y dydd Sadwrn. Efallai mai uchafbwynt y rali i'r rhan fwyaf ohonom oedd y neges a rannodd Estevao Cabral, myfyriwr sy'n alltud o Ddwyrain Timor ers deng mlynedd bellach. Ar ddiwedd y rali, dringodd oddeutu 50 o unigolion dros ffens y maes awyr a chynhaliwyd gweithred dorfol o ffug-farwolaeth symbolaidd fel arwydd o solidariti gyda thrigolion D. Timor.

Cafodd y gwersyll sylw cenedlaethol a lleol gan y wasg a'r cyfryngau torfol ac mae'n wir dweud fod yr hyn sy'n digwydd yn Nwyrain Timor wedi cyrraedd cynulleidfa sylweddol bellach. Ar ddiwedd y penwythnos cytunwyd bod y gwersyll a'r rali wedi bod yn llwyddiant ar sawl lefel i'r rhai a fynychodd. Yn sicr, bu'r digwyddiad yn ysgogiad ac yn symbyliad i ymgyrchwyr ac ymwelwyr sydd wedi bod wrthi ers rhai blynyddoedd yn Lloegr.

Yn anorfod mewn sefyllfaoedd tebyg, wedi'r cyffro a'r gwaith caled, y sialens nesaf yw cynnal unrhyw fomentwm a grewyd yn barod. Ar ôl hoe fach, rhaid paratoi a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Ein bwriad fel grwp, dros y misoedd nesaf, yw adeiladu ar unrhyw lwyddiant a gafwyd eisoes. Fel yr â'r papur hwn i'w wely, mae'r pedair merch o Ogledd Lloegr a achosodd ddifrod i awyren Hawk yn eiddo i British Aerospace ym mis Ionawr eleni, wedi eu dwyn o flaen eu gwell. Bydd aelodau o'r grwp yn y llys yn dangos cefnogaeth.

Gobeithir trefnu presenoldeb, gyda chydweithrediad mudiadau eraill, yn y Cnapan, Gwyl Werin Dolgellau, a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llandeilo. Byddem yn falch iawn o dderbyn unrhyw gefnogaeth ymarferol yn y dyfodol ac yn ddiolchgar iawn am y cymorth a'r gefnogaeth a ddangoswyd i ni eisoes. Bu'r llu o roddion ariannol a dderbyniwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf yn hwb sylweddol. nid yn unig i'r ymgyrch ond hefyd yn eli i'r galon. Diolch i bawb.

Mae'n dyddiau cynnar i ni fel mudiad a'r syniadau yn egino ar hyn o bryd. Yn ystod yr wythnosau nesaf, er enghraifft, mae'n fwriad ymhwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno Gwys gyfreithiol i un ai Ian Lang, Gweinidog Masnach Prydain, neu Malcolm Rifkind, yr Ysgrifennydd Tramor am hyrwyddo troseddau yn erbyn hawliau dynol wrth gefnogi Indonesia, yn foesol ac yn ariannol, yn yr ormes yn erbyn Dwyrain Timor. Gwyliwch y wasg am yr hanes!

Mae digon o waith o'n blaenau, felly, a'r angen am wirfoddolwyr yn siwr o gynyddu yn y dyfodol.

- *Pebae unrhyw unigolyn yn dymuno ymuno â'r gwaith gan ysgwyddo'r baich ryw fymryn, yna mae croeso iddynt gysylltu â ni ar 01286 870044.*



**Dwyrain Timor: mae'n bryd siarad**

# Ddim yn Gyfrinach, Ddim yn Syndod, Ddim yn Gyfrwys

## Stori Undeb Gorllewin Ewrop

Cychwynnodd y cwbl gyda chynllun Schuman. Roeddyn ymddangos yn syniad da ar y pryd. Yn ôl hanes cryno, deilliai holl broblemau Ewrop o'r elyniaeth rhwng Ffrainc a'r Almaen a oedd hithau wedi ei gwreiddio mewn haearn, glo a dur. Pe gellid rhoi'r rheini dan reolaeth drawswladol, ni cheid rhagor o ffraeon rhwng Ffrainc a'r Almaen a gallai Ewrop fynd ar ei hynt yn breuddwydio mewn heddwch a hapusrwydd tragwyddol. Ni ddychmygodd neb y gallai olygu haneru cynhyrchu dur yng ngwledydd Prydain (a lleihau pellach i ddod) a mwy neu lai ddileu cloddio am lo.

## Cropian i mewn i'r Farchnad Gyffredin

Yna daeth y Farchnad Gyffredin. Byddai'n farchnad fwy nag UDA. Am ragolygon gwych i fusnes gwledydd Prydain! Fodd bynnag, doedd arnyn nhw ddim o'n heisiau ni a'n Cymanwlad. Pan lwyddasom i gropian i mewn, gwnaethom hynny heb ein Cymanwlad. Yng ngwres y propaganda o blaid y Farchnad (aed â ni i mewn i ddechrau heb 'gefnogaeth galonog y Senedd a'r Bobl' – chwedl maniffesto'r Toriaid) yn ystod y refferendwm, ni hysbyswyd y cyhoedd y byddai'n arwain at dorri'n cysylltiadau â'r Gymanwlad. Y canlyniad net: ehangu'r fasnach drwy borthladdoedd y GEE (Dover a Felixtowe) a gadael porthladdoedd yn ymdrin â masnach arall yn adfeilion bron (o Lundain, drwy Gaerdydd a Lerpwl hyd afon Clyde). O ganlyniad i hynny, edwinodd y llynges Fasnach ac adeiladu llongau. Rhyw 15% o'n masnach oedd gyda'r GEE o'r blaen ac roedd yn gytbwys. Drwy ymuno, agorwyd y llifddorau i'r GEE dreiddio i'n marchnadoedd ni – ond nid y ffordd arall. O ganlyniad ym 1988, roedd y diffyg ar nwyddau gwneuthuredig gyda'r GEE yn £13 biliwn, y talwyd amdano mewn trethi a gostyngiad mewn safonau byw.

## ... Breuddwydion Un Ewrop

Yn awr (ni waeth pa mor groch y sgrechia asgell dde'r Blaid Doriaidd) rydym yn mynd i fod ag un arian Ewropeaidd. Trosglwyddir y pwer o Fanc Lloegr i'r Banc Canolog Ewropeaidd newydd yn Frankfurt. Gan mai'r Bundesbank fydd â mwyaf o ddylanwad ar y Banc Canolog, unwaith eto – ar ôl hanner canrif – yr Almaen fydd yn rheoli Ewrop.

## Byddin i'r Uwchwladwriaeth Ewropeaidd

Nid yw hyn yn gyfrinach ac ni ddylai synnu neb. Mae'r cwbl ar bapur yng Nghytundebau Rhufain a Maastricht. Nawr, pan gymerir y cam hwnnw (ac fe wneir oherwydd nid yw'r bobl wedi deffro eto) byddwn yn byw mewn uwchwladwriaeth ag un polisi tramor a cynlywodraethau'r aelod-wladwriaethau wedi eu hisraddio i lefel cynghorau sir i bob pwrpas (y rheswm pam y mae llywodraeth leol hithau'n cael ei hisraddio heddiw). Dim ond un peth sydd ar goll o holl gyfarpar uwchwladwriaeth, sef byddin unedig. Dyma lle trown at Undeb Gorllewin Ewrop (UGE).

## I Amddiffyn neu Ormesu Pobloedd Ewrop?

Nid peth newydd mo UGE. Ym 1950, pan oedd marwydos y rhyfel yn dal i fudlosgi, roedd UDA am ailarfogi'r Almaen yn erbyn bygythiad bondigrybwyll yr Undeb Sofietaidd. Roedd Ffrainc gwrthwynebu hynny'n llwyr. Tra'r oedd Ewrop wrthi'n trafod strwythur amgen, ailarfogwyd yr Almaen a'u derbyn i mewn i NATO am mai dyna a ddymunai'r Americaniaid. Ar ôl bod mewn limbo wedyn am flynyddoedd, atgyfodwyd UGE i weithredu fel cynhaliaeth filwrol yr UE ac i atal gwrthryfeloedd y tu fewn i'r UE (a fydd yn siwr o ddigwydd pan ddygir gwladwriaethau lles pobl weithiol Ewrop oddi wrthynt – polisi sydd yn ymhlyg yng Nghytundeb Maastricht). Mae UGE wedi bod yn tyfu'n dawel ers tro. Dechreuodd gyda brigâd Ffrengig-Almaenaidd a throwyd honno erbyn hyn yn Gorfflu Ewropeaidd gyda 40,000 o filwyr o Ffrainc, yr Almaen a Gwlad Belg, â phencadlys newydd yn Strasbourg. Mae Sbaen eisoes wedi gwneud cais i ymuno ac mae Ffrainc, yr Eidal a Gwlad Groeg yn trafod sefydlu Corfflu Ewropeaidd rhif 2. Nid yw UGE mor gyfrwys â hynny. Roedd yn gweithredu yn Rhyfel y Gwlff ac mae'n weithredol ar hyn o bryd ar afon Donwy yn y gwarchae yn erbyn Serbia.

## Arfau niwclear yr Almaen


Mae hefyd yn ffordd heb fod mor gyfrwys â hynny o sleifio arfau niwclear i feddiant yr Almaen ac, ar yr un pryd, symud gwladwriaethau fel Iwerddon, Awstria, Sweden a'r Ffindir o'u niwtraliaeth draddodiadol; yn wir, dyma'r prif reswm y gwrthododd Sweden ymuno â'r GEE yn y lle cyntaf. Ar 22 Awst 1961, anerchodd Prif Weinidog Sweden Gyngress Undeb Gweithwyr Metel Dur ynglyn â pham nad ymunodd Sweden â'r GEE. Mae'n ddatganiad maith yn dangos yn glir pam nad oedd y Cytundeb wrth fodd Sweden.

Dyma'r rhan berthnasol: "Y cwestiwn canolog, wrth gwrs, yw polisi tramor ... Ein dymuniad ni, os oes modd, yw lleihau'r gwahaniaethau rhwng pobloedd y byd a chreu gwell dealltwriaeth rhyngddynt, neu o leiaf i sicrhau nad yw'r camau a gymerwn yn arwain at gynyddu drwgdybiaeth a thyndra rhwng y pwerau mawrion neu ymhlith y rhai bychain ... Pan archwiliodd y Cytundeb, daeth y Llywodraeth i'r casgliad na fyddai ymaelodi â'r GEE, yn unol â Chytundeb Rhufain, yn ei ffurf bresennol, yn gydnaws â pholisi Sweden o niwtraliaeth.

*Denis Martin*



# Trenau Niwclear ar Draws Cymru



**B**ob blwyddyn mae mwy na 500 o deithiau tren yn cludo fflasgiau yn cynnwys rhodenni tanwydd niwclear hesb ymbelydrol iawn rhwng gorsafoedd niwclear yng ngwledydd Prydain a gwaith ailbrosesu BNFL yn Sellafield.

### Wylfa

Yng Nghymru, mae fflasgiau'n teithio o Wylfa, Ynys Môn ar hyd y ffford i'r Fali ac yna gyda'r tren i Sellafield bob dydd Mawrth a dydd Gwener. Er mai Wylfa yw'r unig orsaf ynni niwclear Brydeinig i fod â storfeydd sych ar y safle, nid yw'r rheini'n ddigon mawr i ymdrin â'r holl danwydd hesb sy'n dod allan o'r adweithydd. (At hynny, pan gaeir Wylfa yn y man, bwriedir gwacáu'r storfeydd sych ac ailbrosesu'r tanwydd yn Sellafield.)

### Amserlen Beryglus

Bydd y trenau sy'n cludo'r fflasgiau niwclear yn gadael yn fuan wedi 3 pm brynhawn Mawrth a Gwener ac yn teithio drwy Fangor a Chyffordd Llandudno (lle arferir cyplysu tren wrth yr un a ddoi â fflasgiau o Drawsfynydd - aethpwyd â'r holl danwydd hesb o Drawsfynydd i Sellafield erbyn hyn) cyn dilyn rheilffordd y glannau drwy Fae Colwyn, Abergele, Y Rhyl, Prestatyn ac ati i Gaer ac yna ymlaen i Sellafield. Bydd fflasgiau gwag yn teithio i'r Fali ar yr un dydd gan gyrraedd tua 9.15 am.

### Lledaenu ymbelydredd

Mae'r rhodenni yn y fflasgiau mor ymbelydrol fel y gellir canfod yr ymbelydredd 440 llathen i ffwrdd. Does y fath beth â dôs 'ddiogel' o ymbelydredd - gall unrhyw ddôs achosi niwed i gelloedd a chynyddu'r perygl o gancr.

Yn ystod cyfnod cludo'r fflasgiau mae perygl damwain ddifrifol yn bod beunydd - awgryma ymchwil annibynnol y gallai'r ymbelydredd ledaenu dros bellter o hyd at 28 milltir a gallai chwyrlio dros arwynebedd eang, yn dibynnu ar y tywydd.

### Ailbrosesu

Yn Sellafield, ailbrosesir y tanwydd hesb yn y man, fel y gellir adennill Plwtoniwm, a all fod ar gael at ddefnydd milwrol wedyn. Mae'r llywodraeth wedi cyfaddef y trosglwyddwyd deunydd o'r ochr sifil i'r ochr filwrol ddim llai na 571 o weithiau rhwng 1979 a 1994!

Mae ailbrosesu hefyd yn creu hyd at 160 gwaith cymaint o wastraff ymbelydrol o ran foliwm ag oedd yno yn y lle cyntaf. Hyd yn hyn, nid oes cynlluniau pendant ar gyfer ymdrin â'r gwastraff hwn sydd wedi ei storio yn Sellafield. Nid oes ffordd o wneud y gwastraff hwn yn ddiberygl.


### Damweiniau nawr - dinistr pryd?

Mae safonau diogelwch ar reilffyrdd gwledydd Prydain wedi dirywio yn ystod y broses ddiweddar o breifateiddio BR a Railtrack. Bu tri 'digwyddiad' niwclear digon difrifol i orfod adrodd arnynt er i Railtrack ddechrau gweithredu ym 1994. Mae nifer o fflasgiau wedi cael eu gollwng wrth eu llwytho ac ym mis Gorffennaf 1995, cafwyd rhybudd niwclear graddfa-lawn yng ngorsaf Rugby pan glywodd gweithwyr rheilffordd "swn cracio" o'r tu fewn i fflasg. Yn y cyfamser, mae gan Wisconsin Central, y cwmni o'r UD sydd bellach yn rhedeg busnes cludo nwyddau BR, ac sydd nawr yn gyfrifol am gludo'r rhan fwyaf o'r trenau niwclear, record ddiolgelwch ddifrifol gyda'r gwaethaf yn yr UD. Maent hefyd yn son am atal rhoi meniau gard ar y trenau niwclear ac am ddwyn i ben yr ymrwymiad i beidio â chludo deunydd fflamadwy ar yr un darn o reilffordd ar yr un pryd â'r trenau niwclear.

### Hweithredu

*A ydych yn byw'n agos i'r lein?*

*Rydym yn gobeithio sefydlu rhwydwaith arwylio ar hyd Rheilffordd Glannau Gogledd Cymru. Hoffem i unrhywun sy'n byw'n agos i'r lein i ddweud wrthym am symudiadau'r trenau niwclear ac unrhyw sylw yn y wasg-cyfryngau amdanynt. Efallai eich bod yn adnabod gweithwyr rheilffordd neu gynghorwyr lleol sy'n poeni am y mater neu a all godi'r mater drwy Broses Agenda 21 yr Awdurdod Lleol. Os felly, dewch i gysylltiad â ni, da chi.*
*Paul Hawkes 01239 614856.*
*Dave Andrews 01978 310491*



# Felly roeddech chi'n meddwl bod Rhyfel y Gwlff ar ben?

Mae Mudiad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig wedi cyhoeddi astudiaeth sydd yn dod i'r casgliad y gellir priodoli marwolaeth mwy na 560,000 o blant Iraqi i sancsiynau'r CU. Yn ôl Rhaglen Fwyd y Byd y CU ym 1995, roedd 4 miliwn o bobl yn Iraq yn wynebu prinder maeth difrifol. Mae llawer o blant ac oedolion fel ei gilydd yn dioddef o afiechydon seicolegol. Gwaethygir y cyflyrau hyn gan effeithiau napalm ac ymbelydredd a chwalfa eu sailstrwythur – canlyniad dulliau rhyfela "glân" y Cynghreiriaid.

Mae sancsiynau yn arfau dinistr torfol yn nwylo cyfoethogion y byd yn erbyn pobloedd y de, a gellid honni eu bod yn cael eu defnyddio yn erbyn Iraq fel offeryn cost-effeithiol i beri difodiant torfol.

Yn gynharach eleni, pasiodd y CU "UNSCR 986". Mae'r penderfyniad hwn yn ymddangos, ar y wyneb, fel pe bai'n caniatáu i Iraq werthu olew ac atgyweirio ei heconomi gandryll. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad yn drymlwythog â chostau talu iawndal i Kuwait (nad yw ei hanghenion cyfredol yn fawr iawn), mae'n cynnwys breindaliadau i Dwrci, a dywed bod rhaid i draean o'r holl elw o'r olew fynd tuag at dalu iawndal i'r sector busnes yn Iraq.

Yn ngoleuni hyn, ymddengys elfen ddyngarol y Penderfyniad braidd yn wag ac aneffeithiol, ac fe'i disgrifiwyd fel "trin claf o'r cancr ag Aspirin neu roi paced o fisgedi i blentyn newynog".

Bwriad y Penderfyniad hwn yw tawelu'r rheini sy'n gwrthwynebu sancsiynau a rhoi tragwyddol heol i hegemoni'r UD fynd ati i hyrwyddo ei buddiannau yn y Dwyrain Canol. Wrth i Iraq dderbyn UNSCR 986, dywedodd Llysgennad yr UD, Madeleine Albright "hwn yw'r diwrnod hapusaf i bobl Iraq". Mewn gwirionedd roedd yn ddiwrnod trist i Iraq a bydd yn ddiwrnod trist i bawb sy'n cadw'n dawel.

*Jill Stallard*

**WEITHREDU**

- *Ymunwch â llais rheswm torfol i alw am atal y sancsiynau a gwaharddiad llwyr ar y fath gosb annynol.*
- *Ysgrifennwch at eich AS.*
- *Cysylltwch â mudiadau sy'n gweithio i unioni'r cam a wneir â hawliau dynol pobl Iraq sy'n dioddef o dan y sancsiynau a orfodwyd arnynt gan y CU.*


*International Commission of Enquiry on Economic Sanctions, BM2966, Llundain WC1N 3XX (0171) 436 4636 (cefnogir gan Tony Benn)*

*Friendship Across Frontiers, d/o 51 Hillcrest Gardens, Hinchley Wood, Esher, Surrey KT10 0BU (0181) 398 3266 (Noddwr – Tom Dalyell MP)*

### HEDDWCH YW'R HER



# Mordechai Vanunu – 10 mlynedd mewn cell unig am ddweud y gwir am fom niwclear Israel




Am dri degawd datganodd Israel "Nid ni fydd y cyntaf i ddod ag arfau niwclear i'r Dwyrain Canol". Yn ystod y cyfnod hwn roedd wrthi yn y dirgel yn datblygu rhaglen niwclear eang, gan gelu ei bodolaeth rhag pobl a Senedd Israel, a'r gymuned ryngwladol. Bu Mordechai Vanunu'n ddigon dewr i dorri'r wal hon o dawelwch.

Bu Vananu'n gweithio fel technegydd niwclear yn Dimona, sefydliad niwclear Israel, o 1976 i 1985. Ym 1986 datgelodd y ffaith i'r byd drwy gyfrwng y Sunday Times. Ar sail ei dystiolaeth, amcangyfrifodd arbenigwyr bod Israel wedi crynhoi stoc o hyd at 200 o ergydion niwclear, a olygai mai hi oedd chweched pwer niwclear y byd.

Ar 30 Medi 1986, ddyddiau cyn cyhoeddi ei wybodaeth, rhoddwyd cyffuriau i Vananu a'i gipio o Rufain gan swyddogion cudd Israeli. Cynhaliwyd ei achos llys yn gwbl gyfrinachol, fe'i cyhuddwyd o "frad" ac "ysbïo" a'i ddedfrydu i ddeunaw mlynedd o garchar. Er hynny, fe'i cadwyd ar ei ben ei hun mewn amodau a ddisgrifiwyd gan Amnest Rhygnwladol fel rhai "creulon, annynol a diraddiol". Mae'r Senedd Ewropeaidd wedi condemnio ymddygiad yr awdurdodau Israeli droeon a galw am ei ryddhau. Anrhydeddwyd Vananu gan fudiadau rhyngwladol ac fe'i henwebwyd ar gyfer Gwobr Heddwch Nobel ym 1987, 1988, 1989 ac eto ym 1993 a 1995.

Ysgrifennodd: "Aberthais fy rhyddid a pheryglu fy mywyd er mwyn datgelu perygl arfau niwclear sydd yn bygwth yr hollo ranbarth hwn. Gweithredais ar ran pob dinesydd a'r holl ddynolryw."

**WEITHREDU**

*Cefnogwch yr ymgyrch i ryddhau Vananu – ysgrifennwch at: Llysgennad Israel, 2 Palace Green, Llundain W8 4QB, at eich AS a'ch ASE a/neu at Brifweinidog Israel, Swyddfeydd y Prif Weinidog, Hakiriya, Caersalem, Israel.*

*Cysylltwch â'r Ymgyrch i Ryddhau Vananu a dros Ddwyrain Canol Di-niwclear, 89 Borough High Street, Llundain SE1 1NL.*

# Thorp, Mox a Lledaeniad Niwclear

Mae British Nuclear Fuels (BNFL) wrthi'n dilyn polisi datblygu ymosodol â'r perygl y bydd yn peri lledaeniad arfau niwclear a thwf didrugaredd yr "economi blwtoniwm".

## Thorp yn dechrau llifo!

Mae gwaith Thorp yn Sellafield yn awr yng nghanol ei gyfnod comisiynu gweithredol ac efallai y caiff ganiatâd yr Arolygaeth Sefydliadau Niwclear (ASN) i ddechrau gweithredu'n fasnachol cyn diwedd y flwyddyn. Yn y cyfamser mae BNFL yn gwario mwy na £300 miliwn ar waith cynhyrchu tanwydd ocsid cymysg (MOX) addylai fod yn barod erbyn diwedd 1997. Bydd gwaith MOX Sellafield yn cyfuno plwtoniwm a adenillwyd yn Thorp gydag wraniwm ffres i gynhyrchu rhodenni tanwydd MOX i'w defnyddio mewn adweithyddion dwr ysgafn ym mhedwar ban y byd. Mae cynlluniau eisoes ar y gweill am waith "Thorp2" i ailbrosesu rhodenni tanwydd MOX hesb.

## Incwm nawr – rhwymedigaeth wedyn

Cred BNFL y bydd y strategaeth ddatblygu hon yn ennill llawer o arian i'r cwmni ac yn sicrhau y bydd yn dal i weithredu ymhell i mewn i'r ganrif nesaf. Mae'n osgoi son am y peryglon difrifol sydd yn ymhlyg mewn strategaeth o'r fath o safbwynt lledaeniad niwclear a'r "economi plwtoniwm".

Ar hyn o bryd, gwneir y tanwydd ar gyfer y rhan fwyaf o orsafoedd ynni niwclear o wraniwm naturiol neu wedi ei gyfoethogi fymryn yn unig. Nid yw'n cynnwys dim plwtoniwm nes iddo gael ei losgi mewn adweithydd niwclear. Mae adennill y plwtoniwm hwn yn anodd oherwydd bod y tanwydd hesb mor ymbelydrol ac mae angen cyfleusterau ailbrosesu graddfa-fawr, fel y rheini sydd yn Sellafield. Byddai unrhyw wladwriaeth a ddechreuai adeiladu'r cyfryw gyfleusterau yn fuan iawn yn destun sylw'r arolygwyr niwclear.

## MOX i fom

Gyda tanwydd MOX, fodd bynnag, cynhwysir plwtoniwm a adenillwyd cynt yn y rhoden danwydd cyn ei llosgi yn yr adweithydd. Mae modd gwahanu'r plwtoniwm hwn yn gemegol oddi wrth yr wraniwm yn y roden danwydd gan ddefnyddio technegau cymharol syml – ar raddfa labordy, er enghraifft. Bydd rhaid gwarchod pob rhoden danwydd MOX unigol yn ofalus iawn gan hynny i sicrhau na ddargyfeirid unrhyw blwtoniwm i le arall. Pan fydd yn gweithredu'n llawn, bydd gwaith MOX Sellafield yn cynhyrchu 120 tunnell fetrig o danwydd MOX y flwyddyn – sef miloedd ar filoedd o rodenni tanwydd y gallai pob un ohonynt fod yn ffynhonnell blwtoniwm i wladwriaeth arall neu fudiad brawychol.

## Bomiau cudd y Swisdir

Nid oes gan BNFL farchnad gartref ar gyfer MOX ac mae'n ceisio creu un ryngwladol. Mae'r cymhlethdodau, o safbwynt lledaeniad niwclear, yn amlwg. At hynny, mae'r ffaith, a ddatgelwyd yn ddiweddar, bod gan y Swisdir raglen arfau niwclear gyfrinachol tan 1988, yn golygu yn awr y gwyddom bod pob un o dri phrif gwsmer tramor Thorp – Siapan, yr Almaen a'r Swisdir – oll wedi archwilio'n fanwl ar ryw adeg er y 1960au, y posibilrwydd o ddatblygu arfau niwclear.

## Yr economi blwtoniwm

Bydd y ffaith bod rhai gwledydd yn ailbrosesu ac ailddefnyddio plwtoniwm yn siwr o olygu y bydd eraill yn dymuno "ailgylchu" eu plwtoniwm a'i storio. Bydd gan wledydd â rhaglenni arfau niwclear gan hynny gyflenwad cyfleus o blwtoniwm y gellir ei ddefnyddio mewn arfau. Bydd hyn yn cwtogi'n hallt ar hyd y cyfnod rhwng penderfynu'n wleidyddol i fynd yn niwclear, a cyrraedd cyflwr felly yn ymarferol.

## Camhysbysrwydd

Mae BNFL eisoes yn lledaenu camhysbysrwydd am adennill plwtoniwm a defnydd MOX. Maent wedi haeru y bydd defnyddio Mox yn lleihau'r stociau o blwtoniwm sifil a milwrol, gan anwybyddu'n gyfleus y ffaith na all y rhan fwyaf o adweithyddion dwr ysgafn, am resymau diogelwch, gymryd mwy na thraean llwyth o MOX. Bydd y ddau-draean arall o danwydd wraniwm normal a lwythir iddo yn dal i gynhyrchu plwtoniwm yn gyflymach nag y bydd lwyth MOX yn ei ddefnyddio. At hynny, mae llosgi MOX yn cynhyrchu tanwydd hesb llawer mwy peryglus sydd yn llawer fwy ymbelydrol a'r ymbelydredd hwnnw'n para'n llawer hwy. Bydd y tanwydd hesb hwn yn faich ychwanegol ar y cenedlaethau i ddod, a fradychwyd eisoes gan yr hanner canrif diwethaf o ffolineb niwclear.

---

## Adolygiad Llyfr

### Real Lives, Half Lives – tales from the atomic wasteland

*(Jeremy Hall, Penguin, £6.99)*

Daliwch eich gafael – dyma daith drwy waddol ofnadwy'r gwastraff niwclear rydym ni wedi ei greu ar gyfer wyrion wyrion ein hwyrion. Hanes ein hymyraeth ni â threfn sylfaenol pethau a sut, wrth i rai pobl geisio ymelwa ar y peth, mae eraill yn ceisio ei atal. Y wers yw na fydd yna byth baradwys anllygredig i ni – mae'n rhy hwyr.

Ond yn rhyfedd ddigon, nid yw hwn yn llyfr diflas, ond yn un sy'n llawn rhyfeddodau.

Mewn ffordd ryfedd, mae pawb ohonom y cyffyrwddwyd â'n bywydau gan fodolaeth ymbelydredd o waith llaw dyn, yn frodyr a chwiorydd. A dyma nhw: tylwyth sy'n cynnwys Dr Galimova sy'n astudio salwch ymbelydrol o gwmpas Chelyabinsk yn Rwsia; John Weingart, cyfarwyddwr Bwrdd Lleoli Cyfleuster Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol New Jersey; llwyth Apache Mescalero, Mecsico Newydd; Hans Guyt, yr ymgyrchydd Greenpeace a geisiodd gau pibell Sellafield ym 1987; Ynyswyr Bikini; pysgotwyr o Taiwan; yr ymgyrchwyr gwrth-niwclear Cymreig, Hugh Richards a Tim Deere Jones; Cornelia Hesse-Honegger, darlunydd ymbelydredd – bywyd gwyllt a niweidiwyd, perchen ty yng Nghaerdydd y llifodd carthffosiaeth ymbelydrol iddo o Amersham International ... cawn gyfarfod â hwy – a mwy – yn y gyfrol ardderchog a hynod ddarllenadwy hon.

Mae **Real Lives, Half Lives** yn syfrdanol – mae'n teithio o gwmpas y blaned fechan hon yn datgelu ffeithiau roeddem yn hanner eu gwybod, yn cyhoeddi rhai newydd, brawychys yn fynych iawn yr ydym yn dymuno nad oeddynt yn wir ond diau eu bod. Roedd yn gysur mewn ffordd i ymgyrchydd gwrth-niwclear yng ngwâl ei bwthyn bach – roedd fel son am y diafol. Prynwch a darllenwch , da chi – mae'n wirioneddol dda.

*Jill Stallard*

# Yr Hemisffer Deheuol – Ardal Ddi-Arfau Niwclear bron?



*Yr Hemisffer Deheuol – bron yn ddi-niwclear?*

Aeth Olwen Davies, Isgadeirydd CND Cymru â'r cerdyn hwn gyda hi ar ei hymweliad hapus a llwyddiannus â De Affrica. Cyfeiriai'r cerdyn at Gytundeb Penindaba, a sefydlodd bod Affrica yn gyfandir di-niwclear; gwnaed y cerdyn gan Emily Freeman, 9 oed, o'r Cynghordy. Ym mis Ebrill eleni ysgrifennodd Prosiect Llys y Byd at Weinyddiaeth Materion Tramor yr Aifft i longyfarch gwledydd Africa ar y Cytundeb:

"I bawb ohonom sydd yn gweithio am fyd diniwclear, mae Cytundeb Pelindaba yn destun dathlu. Gyda bron holl wladwriaethau'r Hemisffer Ddeheuol bellach dan adain cytundebau di-arfau niwclear, a Chytundeb Ardal Di-Arfau Niwclear Deddwyrain Asia wedi ei arwyddo ar 15 Rhagfyr 1995, mae'n dystiolaeth galonogol dros ben o fwyafrif cynyddol o wladwriaethau sydd am eu datgysylltu eu hunain oddi wrth arfau niwclear fel elfen bosibl yn eu polisïau diogelwch.''

Mae ochr arall i'r geiniog, fodd bynnag. Y diwrnod yr arwyddwyd y Cytundeb, dywedodd un o swyddogion Cyngor Diogelwch yr UD na fydd y Cytundeb:

"yn cyfyngu ar ddewisiadau'r Unol Daleithau wrth ymateb i ymosodiad gan rywun o Ardal Ddi-Arfau Niwclear sy'n defnyddio arfau dinistr torfol.''

Ceidw'r UD yr hawl i ddefnyddio arfau niwclear yn erbyn cenedl Affricanaidd – hyd yn oed os yw honno'n wladwriaeth ddi-niwclear – os defnyddia hithau arfau cemegol neu fiolegol.

Arwyddwyd Cytundeb Ardal Di-Arfau Niwclear Deddwyrain Asia ym mis Rhagfyr 1995 yn un o uwchgynadleddau ASEAN yn Bangkok, sy'n golygu bod cyfanswm o bedair ardal ddi-arfau niwclear o'r fath o gwmpas y byd erbyn hyn.

# Faslane – Trechu Trident




Fe ddwedon nhw bod dydd y brotest fawr drosodd – Lol! Ag ystyried mor anghysbell yw'r safle, roedd y cynulliad o ymgyrchwyr dros heddwch yn Faslane ar y 15fed Mehefin yn anferth!

Fe ddwedon nhw bod y Mudiad Heddwch yn marw o hen oed – Lol! Yn sicr, roedd yr hen ffyddloniaid yno, ond roedd cynrychiolaeth galonogol iawn o bob cenhedlaeth.

Roeddem yn falch i groesawu 15 o aelodau Movement de la Paix Llydaw, yn cynnwys ffrindiau a'n croesawodd ninnau i Lydaw pan ymgynullodd 15,000 o brotestwyr ym mis Hydref 1995 ger Canolfan Llongau Tanfor Niwclear Brest.

Fore Sadwrn, ymgasglodd torf anferth wrth y pier yn Helensburgh. Roedd y Peiriant Trawsnewid Trident yn atyniad poblogaidd. Roedd un plismon cyfeillgar wedi mopio â'r syniad o wthio Trident i mewn i un pen iddo, troi'r ddolen a gwylio tai, ysbytai ac ysgolion yn arllwys o'r pen arall. Ryw awr wedi cynnull yn Helensburgh, aeth confoi o fysys, bysys mini a cheir preifat â ni i'r Gwersyll Heddwch sydd ryw filltir a hanner o'r Ganolfan.

Yn hamddenol ddigon, fe godwyd baneri a chynullodd yr orymdaith ar ffordd wasanaeth. Yn y man, mewn heulwen danbaid, i ffwrdd â'r orymdaith liwgar iawn i fyny'r llethr graddol a arweiniai at gaer y wifren. Roeddem wedi bod i Greenham a wedi bod i Moesworth ond welson ni erioed o'r blaen wifren rasel chwe torch o ddyfnder. Roedd y cwn heddlu a'u meistri surbwch yn gyfarwydd iawn, fodd bynnag. Gyda bencyn uchel ar y llaw chwith â ffens ddur yn ei choroni, teimlai fel pe baem wedi bod yn cerdded am hydoedd cyn cyrraedd pen y bryn a dechrau'r siwrnai faith i lawr i'r brif glwyd. Roedd yn gwneud i ddyn sylweddoli y fath symiau anferth o'n harian ni a wariwyd ar offer ar dir yn ogystal ag ar fygythiad niwclear Trident ei hun. Wrth i ni ffurfio'n gwarchae symbolaidd, rhoesom wybod iddynt ein bod yno drwy chwibanu a bwrw'r ffens â cherrig, gan oernadu'n uchel a chynhyrfus drwy'r amser. Tra'r oedd y twrw difyr yma'n mynd yn ei flaen, roedd eraill wrthi'n addurno'r ffens. Un cyfraniad lliwgar oedd casgliad o sticeri Cymraeg oddi wrth y Siop Heddwch. Yna, ar arwydd a drefnwyd o flaen llaw, dangosodd bawb gerdyn coch i'r gwersyll, gan ddanfon Trident, yn amserol iawn, o faes y ddynoliaeth am byth. Cafwyd areithiau wedyn. Nid oedd acenion Albanaidd cryf dros system awyr-agored yn hawdd eu deall ond roedd y neges yn ddigamsyniol – rhaid i ni oll adnewyddu ein hysbrydoliaeth a gweithio am Brydain ddi-niwclear mewn byd di-niwclear.

Ac yna, yn ôl i'r Gwersyll Heddwch i edmygu harddwch glannau'r Loch a mwynhau bwyd ac adloniant gyda'r rheini mae eu gweledigaeth yn cwmpasu dyfodol mwy diogel a mwy call, sydd yn deall bod rhaid aberthu i gario'r maen hwnnw i'r wal. Drwy gefnogi'n gilydd a dal i fod yn hyderus, mi allwn ennill!

*Jeanne a George Crabbe*

# Heddychwyr yn Meddiannu Canolfan Reoli Filwrol

Ar Fehefin 26ain aeth grwp o aelodau a chefnogwyr Cymdeithas y Cymod i mewn i'r ffug eglwys yn ffug bentref Cilieni ar Fynydd Epynt a'i feddiannu. Adeiladwyd y pentref yn yr ardal hyfforddi 40,000-erw yn niwedd y 1980au am gost o fwy na £7 miliwn, fel lle i filwyr ymarfer lladd pobl yn eu cartrefi ac o'u cwmpas. Defnyddir adeilad ar ffurf eglwys, sydd â mynwent ffug hyd yn oed, fel canolfan reoli ac arwylio.

Cerddodd y protestwyr i mewn i'r pentref heb i neb eu rhwystro, dringo ysgol ddihangfa dân i dwr yr eglwys, a mynd i mewn drwy'r drws dihangfa dân ar y pumed llawer. Meddiannwyd y lle am fwy na phedair awr cyn i heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn gario'r protestwyr oddi yno. Ni restiwyd neb felly, unwaith eto, gwadwyd i ni'r cyfle i roi prawf ar gyfreithlondeb is-gyfreithiau milwrol ac ar weithrediad y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol yn y fath sefyllfa. Galwai'r gwrthdystwyr am:

- ddychwelyd yr ardal i ddwylo pobl leol i ddibenion heddychlon
- rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ffug eglwys fel canolfan i arwylio'r hyfforddiant milwrol.


Roedd y rheini a gymerodd ran yn y weithred o bob rhan o Gymru. Maent yn ddig iawn bod y llywodraeth wrthi beunydd yn paratoi ar gyfer rhyfel a lladd yn hytrach nag edrych am ffyrdd di-drais o ddatrys gwrthdaro yn barhaol.

Dywedodd un a fu'n gwrthdystio, Awel Irene, bugail a mam:

"Mae militariaeth yn llechu'n dawel dan gochl amddiffyn a chadw'r heddwch. Dyna sydd yn digwydd ar Epynt. Rhaid i ni godi ein lleisiau eto yn erbyn y diwydiant rhyfel ac yn erbyn y paratoadau a'r hyfforddi am ryfel a dinistr."

- *Os carech gymryd rhan mewn gweithredu uniongyrchol di-drais yn y dyfodol, cysylltwch â Rod Stallard, os gwelwch yn dda (gweler y rhestr gysylltiadau)*

# Dysgu gan Libya



Aeth ychydig dros ddeng mlynedd heibio er i'r UD fomio Libya gan ddefnyddio awyrennau F-111 ac EF-111 o Upper Heyford a Lakenheath. Roedd y digwyddiad hwn yn ysgytwad i mi mewn sawl ffordd: nid yn unig fy mod yn arswydo ac yn gwaredu wrth y gyflafan ei hun a'r drasiedi ddynol, ond roedd hefyd yn ergyd ddofn i'r darlun o'r byd yr oeddwn wedi ei etifeddu.

Fe'm magwyd i mewn mudiad heddwch a oedd yn unedig yn erbyn difodiant niwclear, yn erbyn dinistr llwyr. Nid oedd bomio Tripoli a Benghazi'n ffitio i mewn i'r darlun hwn ond roedd yn fy mrifo ac yn effeithio arnaf lawn cymaint. Dyna oedd cychwyn fy addysg i am wleidyddiaeth "ymyrraeth", ei orffennol gwaedlyd a'i bresennol bygythiol. Dechreuodd hefyd newid fy narlun niwclear i o'r byd yn sylfaenol.

Nid dim ond am ddwy ymerodraeth yn wynebu ei gilydd yn ddrwgdybus, yn gwegian ar ymyl dinistr niwclear yr oedd arfau niwclear; roedden nhw hefyd ynglyn â dwy ymerodraeth yn cynnal eu dylanwad gwleidyddol ac economaidd. Roedd cysylltiad clos rhwng arfau niwclear a gwleidyddiaeth ymyrraeth.

Gyda chwymp yr Ymerodraeth Sofietaidd, llwyddodd arfau niwclear i oroesi i raddau helaeth oherwydd yr elfen imperialaidd hon: rhaid i'r byd wybod pwy sy'n fos o hyd. Mae'r bos am i'r byd wybod. Gwnaeth cyhoeddi "Dysgeidiaeth Rifkind" y polisi hwn a oedd ynghudd cynt yn glir i bawb ei weld.

Wrth gwrs, nid oedd yn beth cudd i bobl y tu allan i'r ymerodraeth neu ar ei hymylon; bu'n amlwg, yn amrwd ac yn effeithiol. Math o frawychaeth holl-bresennol wedi ei chefnogi gan wersi "confensiynol" gwaedlyd.

Mae fel pe bai rhai rhannau o'r mudiad heddwch yng ngwledydd Prydain yn anfodlon gollwng gafael ar ddarlun cyfyngedig ac anwir o'r byd niwclear. Byddant yn datgan fod arfau niwclear yn ddiwerth. Ond i'r gwrthwynebeb; maent yn ddefnyddiol iawn ac yn cael eu defnyddio drwy'r amser. Yn aml iawn, bydd grym brawychydd yn dibynu ar wn nas taniwyd.

Rhaid i'r mudiad heddwch fynd i'r afael yn frwd â holl ymhlygiadau 'Trident Tactegol' a newid ei agwedd ar y byd i gynnwys ei ganfyddiadau a'r hyn a wêl, nid dim ond am mai dyna'r peth onest i'w wneud ond am y daw â ni a'r byd gam yn nes at ddatgelu, herio a gwrthdroi hanes maith y gorllewin o fwlian niwclear a di-niwclear, o fygwth a choncwest.

*Stephen Hancock*

- *Diolch i Lythyr Newyddion Trident Tactegol Rhif 2 Haf 1996*
- *Cyflawnodd Stephen Hancock (ynghyd â Mike Hutchinson) weithred Sychau Erydr yn Upper Heyford ym mis Mawrth 1990, pan forthwyliodd ar awyren F-111 i brotestio yn erbyn rhan Upper Heyford mewn ymladd rhyfel niwclear ac ymyrraeth yr UD. Cafodd ef a Mike chwe mis o garchar.*



# At Fenywod Greenham YM MHOB MAN

## A phawb sydd wedi gwrthdystio yng Ngwersyll yr Awyr Unol Daleithiau ar Gomin Greenham ger Newbury

Mae'n bosibl bod miloedd o fenywod o Gymru ac eraill a wrth dystiodd yn erbyn taflegrau Cruise yng Nghomin Greenham yn y 1980au wedi cael eu llygru gan ddefnyddiau ymbelydrol (plwtoniwm ac wraniwm) a ryddhawyd o ganlyniad i ddamwain yn y wersyll 30 mlynedd ynghynt.

Cadwyd y wybodaeth yma yn hollol gyfrinachol gan y llwyodraeth am yn agos i 40 mlynedd, nes i'r Ymgyrch Dros Ddiarfogi Niwclear (CND) ei Datgelu.

Mae'r modd gwarthus y cadwyd y ffeithiau'n ddirgel yn dangos gwir ymagwedd y pwerau niwclear - dengys mor ddibwys iddynt yw bywydau a iechyd y rhai y mynnant eu bod nhw yn eu "hamddiffyn". Dim ond un ddamwain mewn un safle oedd hon. Rhaid inni ofyn: faint o bobl gyffredin yng nghyffiniau faint o safleoedd niwclear eraill sydd wedi cael eu twyllo fel hyn ?

Mae iechyd a bywydau Benywod Greenham, trigolion Newbury a'r cylch, a phawb sydd wedi ymweld a'r wersyll ar gyfer sioeau hedfan, wedi cael eu peryglu'n arw heb i'r cyhoedd gael gwybod.

# Mae'ch Hawliau Dynol wedi cael eu sathru !

☞ Cysylltwch a'ch AS lleol

☞ Galwch Lein Argyfwng y Llywodraeth : (0181) 285 76 76

Cefnogwch CND Cymru yn ei gwaith dros Ddyfodol Di-Niwclear.

Am ragor o wybodaeth am CND Cymru a ffurflen ymaelodi, ysgrifennwch at : Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Sîr Gaerfyrddin, SA20 OLR.

Ffôn neu Ffacs : (01550) 750260

Greenham.dtp 7/96